# Gweithdrefnau Gêm Blazin' 7s

**Cyflwyniad**

Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer BLAZIN' 7S (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).




**Manylion y Gêm**

Enw'r Gêm: **"BLAZIN' 7S"**
Rhif y Gêm: **"Game 1394"**
Pris Manwerthu: **£1 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.85 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 7,764,840 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**

Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys grid gyda naw motiff '£' (y "Grid"). Mae wyth saeth ar hyd brig y Grid, ar yr ochr dde ac yng nghorneli uchaf y Grid a phob un yn dangos swm ariannol gwahanol ("Gwobr").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar y Grid i ddatgelu naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol. Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch yn datgelu tri Symbol Chwarae unfath gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol sy'n creu llinell lorweddol, fertigol neu groeslinol yn y grid. Bydd y Wobr yn gyfwerth â swm y Wobr a ddangosir yn y saeth gyfatebol ar frig llinell fertigol neu groeslinol gyflawn yn y Grid, neu i'r dde o linell lorweddol gyflawn yn y Grid.

**Symbolau Chwarae a Phenawdau Chwarae**

| Symbolau Chwarae |  |  |
|---|---|---|
| Penawdau Chwarae | **SEVEN** | **FLAME** |

Bydd naw Symbol Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen y grid yn yr Ardal Chwarae. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm..

**Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd**

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm | Goddefiant ar gyfer y Tebygolrwydd o Ennill os caiff rhagor o gardiau crafu eu hargraffu |
|---|---|---|---|---|
| Gwerth y Wobr | Manylion y | | | |
| £1 | £1 | 802,340 | 10 | +/- 5.00% |
| £2 | £2 | 733,374 | 11 | +/- 5.00% |
| £4 | £4 | 431,380 | 18 | +/- 5.00% |
| £10 | £10 | 43,138 | 180 | +/- 5.00% |
| £20 | £20 | 6,619 | 1,174 | +/- 5.00% |
| £50 | £50 | 624 | 12,444 | +/- 5.00% |
| £100 | £100 | 343 | 22,639 | +/- 5.00% |
| £7,000 | £7,000 | 5 | 1,552,968 | +/- 36.55% |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

### Gwerth Gwobrau yn y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cynrychioli 60.00% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £4,658,868 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, Cardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau), na Chardiau Crafu ychwanegol a gaiff eu hargraffu ar gyfer y Gêm. Os bydd Gwobr uchaf ar gael o hyd, gall Allwyn argraffu Cardiau Crafu ychwanegol ar gyfer y Gêm hon. Os caiff Cardiau Crafu ychwanegol eu hargraffu ar gyfer y Gêm hon, o ran y Cardiau Crafu ychwanegol hynny, bydd y tebygolrwydd cyffredinol o ennill Gwobr ar bob lefel Gwobr, gan ystyried y lefelau goddefiant a nodir yn y tabl uchod, yr un fath ag ar gyfer y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

### Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn.